# Polisi ar y Camddefnydd o Alcohol a Chyffuriau yn y Gweithle (Ysgolion)

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Cybi |
| **Dyddiad cymeradwyo a mabwysiadu'r polisi gan y Corff Llywodraethu** | 1/2/24 |
| **Cyfnod Adolygu** | Bob tair mlynedd |
| **Dyddiad adolygiad nesaf** | Tymor y Gwanwyn 2026 |
| **Pennaeth** | Owain Lemin Roberts |
| **Cadeirydd Llywodraethwyr** | Colin Bell |

**Paratowyd gan, Adnoddau Dynol, Gwasanaeth Trawsnewid**

**Adolygwyd:**
**Rhagfyr 2023**

## 1.0 CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r polisi hwn wedi ei gyflwyno er mwyn amlygu'r pwyslais a rydd yr Ysgol a'r Cyngor ar iechyd a lles pobl yn y gwaith. Cyflawnir hyn drwy greu cysylltiadau gyda rhwydweithiau cefnogi allanol sydd wedi derbyn hyfforddiant proffesiynol i ddelio gyda phroblemau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol/cyffuriau. Mae'r polisi yn berthnasol holl staff a ysgol.

## 2.0 DATGANIAD POLISI

**2.1** Nod y polisi yw hyrwyddo ymwybyddiaeth o effeithiau alcohol a chamddefnyddio cyffuriau ar y gweithle a sicrhau bod yr ysgol yn parhau i ddiogelu iechyd a diogelwch y gweithlu yn ogystal â phob unigolyn arall sy'n defnyddio adeiladau a gwasanaethau'r ysgol.

**2.2** Mae'r Corff Llywodraethol yn anelu at sicrhau nad yw camddefnydd o gyffuriau ac alcohol gan ei weithwyr yn effeithio ar waith yr ysgol a'r Awdurdod ac mae'n ymrwymo i sicrhau amgylchedd gweithio diogel, iach a chynhyrchiol a lleihau i'r eithaf ar broblemau a gyfyd oherwydd camddefnydd o gyffuriau ac alcohol yn y gwaith.

**2.3** Mae'r Corff Llywodraethol yn gwahardd staff rhag yfed alcohol a chymryd cyffuriau neu bod o dan ddylanwad sylweddau yn ystod oriau cytundeb gwaith, tra yn eu man gwaith arferol, ar eiddo'r Cyngor ar unrhyw bryd ac hefyd wrth wneud dyletswyddau neu hyfforddiant y tu allan i oriau gwaith arferol,  cyn gwaith neu yn ystod egwyl.

**2.4** Mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod bod gweithwyr sy'n delio gyda dibyniaeth angen cefnogaeth a chymorth.  Mae'r polisi hwn yn anelu I sichrau bod y rhai sydd yn gaeth i alcohol neu sylweddau anghyfreithlon neu sydd gyda problemau sy'n gysylltiedig â chamddefnydd alcohol a sylweddau, yn cael eu trin gyda sympathy, tegwh ac yn gyson a byddent yn cael eu hanog i geisio am cymorth a chefnogaeth. Fodd bynnag, os yw y gweithiwr yn gwrthod ceisio am Gymorth meddygol neu os nad oes gwelliant yn eu presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad unwaith mae cefnogaeth ar waith, yna gall prosesau disgyblu ddilyn.

**2.5** I bwrpas y ddogfen hon, defnyddir y diffiniad canlynol o gamddefnyddio cyffuriau/ alcohol:

- Mae cyffur yn sylwedd (dim bwyd) sydd, pan yn cael ei gyflwyno i'r corff, yn creu newid mewn canfyddiad a/ neu dymer a/ neu sut mae'r corff yn gweithio'' Adran Hybu Iechyd (1999)
- Bydd y term 'cyffur' yn cyfeirio at: ddeunydd anghyfreithlon o sylweddau e.e. alcohol neu doddyddion moddion sydd ar gael yn gyfreithiol moddion a gafwyd ar bresgripsiwn gan feddyg; meddiant anghyfreithlon neu ddefnydd anghyfreithlon o foddion a gaed ar bresgripsiwn e.e. tawelyddion, moddion cwsg; cynhyrchu, meddiannu, defnyddio a chyflenwi sylweddau anghyfreithlon e.e. cannabis, LSD.
- “O dan ddylanwad”-
    - Presenoldeb cyffuriau neu alcohol lle nad oes angen meddygol dilys ar gyfer un ai ei ddefnyddio neu ar gyfer y lefel a ddefnyddir, neu
    - Presenoldeb alcohol yn y corff fel y dynodir gan brawf anadl (Ystyrir

dros 35 microgram o alcohol ym mhob 100 mililitr o anadl fel camymddygiad difrifol).

**2.6** Gellir rhannu problemau sy’n ymwneud ag alcohol a chyffuriau yn 2 gategori:

- Dod i weithio tra rydych o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol.
- Dibyniaeth barhaus ar alcohol neu gyffuriau sy’n amharu ar eich gwaith. Dylid ystyried hyn yn fater iechyd a’i drin yn y ffordd briodol.

**2.7** Amcan y polisi hwn yw sicrhau bod yr holl bobl sy'n gyflogedig yn:

- ymwybodol o'r canllawiau
- ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael yng nghyd-destun y camddefnydd o alcohol/cyffuriau
- sichrau, cyn belled ag y mae hynny'n bosib, nad yw defnydd gweithwyr o alcohol/cyffuriau yn effeithio ar ddiogelwch a chynhyrchedd yn y gweithle.

**2.8** Mae gweithwyr sy'n cymryd cyffuriau neu sy'n defnyddio alcohol yn ormodol yn atebol i'r Corff Llywodraethol pan fod eu ymddygiad yn amharu ar:

- bresenoldeb
- perfformiad gwaith
- diogelwch eraill
- digio cydweithwyr

**2.9** Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn profi am cyffuriau a/neu alcohol ar sail “achos” h.y. pan fydd Pennaeth/ Rheolwr llinell, mewn cydweithrediad ag Adnoddau Dynol, os yn briodol, yn amau bod camddefnydd sy’n effeithio ar iechyd a diogelwch a/neu berfformiad yn y gweithle.

**2.10** Mae’r Corff Llywodraethol yn anelu at roi cymorth cadarnhaol i'w staff drwy:

- Hyrwyddo ffordd iach o fyw
- Ymyrryd pan fo alcohol neu gyffuriau yn cael eu camddefnyddio
- Lleihau niwed a rhwystro'r camddefnydd o alcohol/ cyffuriau
- Darparu addysg a gwybodaeth ar ddefnyddio a chamddefnyddio alcohol a chyffuriau.

**2.11** Mae atal y defnydd o alcohol neu gyffuriau yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n bwysig i'r holl weithle ac mae gan bob aelod o staff, ar unrhyw lefel, ran i'w chwarae. Dylai unrhyw aelod o staff sydd angen cymorth a chefnogaeth i ddelio gyda phroblem alcohol neu gyffuriau dderbyn hynny gyda'r amcan o gynorthwyo'r aelod o staff i barhau i berfformio ei (d)dyletswyddau proffesiynol. Bydd unrhyw unigolyn sy’n dioddef o ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yn derbyn yr un gefnogaeth ag unrhyw unigolyn arall sy’n dioddef o gyflwr meddygol.

## 3.0 RHWYMEDIGAETHAU CYFREITHIOL

**3.1** Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle, 1974, Adran 2 yn rhoi dyletswydd ar gyflogwr i sicrhau: " … darparu a chynnal amgylchedd gwaith ar gyfer ei gweithwyr sydd, cyn belled a bo’n rhesymol ymarferol, yn ddiogel, heb berygl i iechyd, ac yn ddigonol o ran cyfleusterau a threfniadau am eu lles yn y gwaith.”

**3.2** Mae'n ddyletswydd gofal ar weithwyr, fel y dywedir yn Adran 7 y ddeddf, i gymryd gofal rhesymol o'u hiechyd eu hunain ac eraill ac i gydweithio gyda'r cyflogwr ar faterion cysylltiedig.

**3.3** Yn ôl Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 mae'n drosedd caniatau i gyffuriau gael eu defnyddio, eu cadw a'u cyflenwi mewn adeilad sy'n perthyn i chi ac i anwybyddu digwyddiadau o'r fath. Efallai y bydd hy'n ofynnol ar yr Awdurdod i ddatgan fath troseddau i'r Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru

**3.4** Yn ôl Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 mae'n anghyfreithlon i fod yn anaddas i weithio ar systemau trafnidiaeth oherwydd yfed alcohol neu gymryd cyffuriau.

**3.5** Mae'r Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 a gyflwynwyd ar 26 Mai 2016 yn gwneud cyffuriau a adnabyddir cynt fel 'legal highs' yn anghyfreithlon.

**3.6** Bydd unrhyw symptomau s'yn codi o ganlyniad i gamddefnydd o alcohol/cyffuriau a all gael eu diffinio fel 'anabledd' yn unol ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu trin yn unol â'r ddeddf.

## 4.0 GWEITHDREFNAU I'W DILYN

Amcan y polisi hwn yw sicrhau bod y gweithwyr hynny sy'n dioddef o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau neu broblemau cysylltiedig yn derbyn y gefnogaeth briodol ac yn cael eu hannog i 'mofyn cymorth a thriniaeth. Fodd bynnag, ar y llaw arall, os bydd unigolyn yn gwrthod cymorth meddygol a bod y broblem yn parhau, bydd trefn ddisgyblu'r ysgol yn cael ei gweithredu.

**4.1** Gall y nodwedion canlynol fod yn arwydd o broblem sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau, fodd bynnag, ni ddylid eu hystyried fel rhestr gyflawn a gall y symptomau fod yn gysylltiedig â phroblemau eraill:

- Absenoldeb
- Bod yn sâl yn aml, yn enwedig ar ddydd Gwener a/ neu dydd Llun
- Diofalwch/ mwy o anafiadau/ damweiniau yn y gwaith
- Bod yn flin, iselder, dryslyd, amrwymiadau mewn hwyliau , ymosodol neu cysgadrwydd
- Anhawster canolbwyntio, methu cofio cyfarwyddiadu
- Dirywiad mewn perfformiad gwaith
- Hwyr o ginio o hyd
- Rhesymau amheus am absenoldeb
- Arwyddion ffisegol h.y arogl alcohol, golwg bler, diffyg hylendid, siarad yn aneglur

**4.2** Mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod bod y camddefnydd o alcohol/cyffuriau yn gallu digwydd i bobl ar bob lefel o fewn y gweithle ac mae'n cael ei ystyried gan yr Awdurdod fel problem iechyd. Mae cymorth ac arweiniad ar gael i bob unigolyn, drwy gysylltu gyda'r canlynol:

- Pennaeth/Rheolwr llinell,
- Cynyrchiolydd undeb,
- Adnoddau Dynol,
- Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.
- (Gweler hefyd Cyfeirlyfr o wasanaethau Lleol - Gweler Atodiad 1 atodol).

**4.3** Os yw'n hysbys neu os amheuir bod unigolyn yn dioddef hefo problem alcohol neu gyffuriau, bydd hi/ fo yn cael ei g(ch)ynghori i 'mofyn cyngor meddygol neu arweiniad gan eu Meddyg teulu neu hunan atgyfeiriad i'r Adran Iechyd Galwedigaethol drwy ffonio 01286 679746 / 01248 752510. Fodd bynnag, os yw'r cyngor hwn yn cael ei wrthod a safon y gwaith yn dirywio, mae modd delio gydag o/ hi yn unol â'r drefn ddisgyblu a all gynnwys mynd i swydd is, trosglwyddiad i ardal arall neu ddwyn cyflogaeth i ben.

**4.4** Ni ddylid rhoi manylion ynghylch orddibyniaeth ar gofnod personol unigolyn ac eithrio mewn achosion lle mae o/ hi wedi gwrthod cefnogaeth a chyngor meddygol a bod y drefn ddisgyblu o ganlyniad wedi cael ei gweithredu.

## 5.0 SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

**5.1** Mae gan **bob** unigolyn o fewn yr ysgol ran i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y camddefnydd o alcohol/ cyffuriau yn cael ei atal.

### 5.2 Penaethiaid/Rheolwyr

Bydd angen i Pennaeth/Rheolwyr wahaniaethu rhwng camymddygiad o ganlyniad i yfed gormod o alcohol/cymryd gormod o gyffuriau ar achlysur penodol a dibyniaeth ddifrifol ar alcohol neu gyffuriau a dylid dilyn y weithdrefn briodol. Fe ddylent hefyd:

- fod yn gyfarwydd â'r polisi a sicrhau bod eraill yn ymwybodol ohono
- fod yn ymwybodol o effeithiau/ arwyddion o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau
- ymyrryd cyn gynted ag y bo arwydd o broblem
- cyfeirio gweithwyr am gymorth a chefnogaeth
- cynnal 'asesiad risg' o ddyletswyddau gweithwyr er mwyn dwyn sylw at a dileu unrhyw factor a all gyfrannu at gamddefnydd o'r fath
- cymryd camau i amddiffyn unigolion ac eraill lle bydd unigolyn yn eu hysbysu eu bod yn cymryd meddyginiaeth a allai effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith yn effeithiol.
- ymwybyddiaeth y bydd meddu ar gyffuriau anghyfreithlon yn unol â Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn cynnwys sylweddau anterth cyfreithlon, eu defnyddio neu eu cyflenwi yn y gweithle yn gwbl waharddedig ac y dylid hysbysu'r Heddlu o unrhyw achosion o'r fath.

Pan fydd tystiolaeth ddigonol i amau anallu unigolyn i weithio, neu bod risg i iechyd a dioglewch o ganlyniad i'r ffaith eu bod o dan ddylanwad alcohol, rhaid i Pennaeth/Reolwyr gysylltu gyda 'Mon Diagnostics' er mwyn hwyluso prawf "achos" alcohol a/neu cyffuriau ar gyfre yr unigolyn os yn briodol.

### 5.3 GWEITHWYR

- Ni ddylai gweithwyr ddod i'r gwaith tra maent o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol lle bydd eu perfformiad, neu eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau yn y gwaith mewn modd diogel a chymwys, wedi'i effeithio arno mewn unrhyw ffordd.
- Fe ddylai gweithwyr sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r polisi a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phrofi am alcohol a chyffuriau.
- Fe ddylai gweithwyr geisio cymorth gydag unrhyw faterion camddefnyddio alcohol/cyffuriau un ai drwy eu Meddyg teulu eu hunain, drwy Arbenigwr neu drwy hunangyfeiriad at yr Adran Iechyd Galwedigaethol.
- Fe ddylai gweithwyr hysbysu eu Pennaeth/Rheolwr llinell am unrhyw bryderon sydd ganddynt am gydweithwyr a chamddefnyddio alcohol/cyffuriau.

• Ni ddylid defnyddio unrhyw alcohol / cyffuriau **cyn** oriau gwaith a allai effeithio ar eu gallu i ymgymryd ag unrhyw rai o'u dyletswyddau, gan gynnwys lle bydd yr unigolyn angen defnyddio cerbyd yn ystod oriau gwaith ar gyfer cyflawni busnes swyddogol yr ysgol / Cyngor.
• Mae pawb yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhw ôl-effeithiau alcohol a chyffuriau ar eu cyrff pan fyddant yn dod i'r gwaith (gan gofio bod alcohol a chyffuriau yn parhau yn y corff am gyfnod ac y gall lefelau isel effeithio ar farn a pherfformiad ac y gellir amharu ar ddiogelwch).
• Fe ddylai gweithwyr fod yn ymwybodol y bydd yfed alcohol neu gymryd unrhyw gyffuriau anghyfreithlon yn ystod **oriau gwaith**, neu oramser neu oriau ychwanegol ar eiddo'r ysgol/Cyngor neu tra'n defnyddio cerbyd ysgol/Cyngor a/neu tra ar fusnes swyddogol yr ysgol/Cyngor men lleoliad annibynnol yn cael ei drin fel mater difrifol. Gweithredir y Polisi disgyblu ac fe allai arwain at ddiswyddiad. Mae hyn yn cynnwys staff efo cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch plant a/neu oedolion bregus wrth fod i ffwrdd o'u safle arferol gwaith neu tu allan i oriau gwaith arferol e.e. tripiau ysgolion, tripiau dyddiol, aros dros nos.
• Byddwch yn ymwybodol bod meddu ar gyffuriau anghyfreithlon yn unol â Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn cynnwys sylweddau 'anterth cyfreithlon', eu defnyddio neu eu cyflenwi yn y gweithle yn gwbl waharddedig ac y dylid hysbysu'r Heddlu o unrhyw achosion o'r fath. Bydd y mater yn cael ei ddelio ag ef yn unol â Pholisi Disgyblu'r Ysgol fel camymddygiad difrifol a allai olygu diswyddiad.
• Fe ddylai gweithwyr sicrhau eu bod yn hysbysu eu Pennaeth/rheolwyr llinell ar unwaith os ydynt wedi derbyn cyffuriau gan y meddyg a allai effeithio ar eu gwaith.

**5.4.ADNODDAU DYNOL**
• cynnal arweiniad priodol i Penathiaid/Reolwyr
• cyfeirio gweithwyr am gymorth os bydd angen – drwy atgyfeiriad i'r Uned Iechyd Galwedigaethol, Medra, Education Support ac asiantaethau cefnogi eraill.
• rhoi cymorth a chydweithio hefo Penaethiaid/Rheolwyr ar weithrediad y polisi a'r drefn ddisgyblu os yn briodol

**5.5.UNDEBAU LLAFUR**
• cynghori aelodau ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau o safbwynt y polisi
• cymorth i ddatblygu'r polisi
• cynyrchioli hawliau ac anghenion y gweithwyr

**6.0 CANLLAWIAU I'W DILYN OS AMHEUIR CAMDDEFNYDD O SYLWEDDAU**

**6.1** Gofynnir i unigolion cyflogedig sy'n ymwybodol eu bod yn gaeth i alcohol neu gyffuriau 'mofyn cymorth ar unwaith. Os amheuir bod gan gydweithiwr broblem, cyfrifoldeb y sawl sy'n amau ydy rhoi gwybod i'r Pennaeth/Rheolwr, y Gwasanaeth Adnoddau Dynol neu'r Tím Iechyd a Diogelwch am hyn.

**6.2** Os oes gan Pennaeth/Reolwr reswm digonol i amau bod achos o gamddefnyddio alcohol a/neu cyffuriau, er enghraifft os ydi ef/hi efo achos i feddwl bod y gweithiwr/wraig wedi mynychu gwaith

dan ddylanwad alcohol neu cyffuriau, yna, yn dilyn llenwi ffurflen gais, fe ddylai ef/hi gysylltu ag AD am arweiniad a cysylltu gyda ‘Mon Diagnostics’ er mwyn trefnu prawf “achos”.

**6.3** Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i ddelio gyda'r math yma o sefyllfa yn gyfrinachol a chyda chydymdeimlad. Fodd bynnag, ni all yr ysgol oddef gweithgareddau anghyfreithlon ac yn y fath achosion, bydd y drefn ddisgyblu yn cael ei gweithredu.

## 7. MEDRUSRWYDD

7.1 Os bydd Pennaeth yn adnabod problemau sy’n gysylltiedig â galluogrwydd yn ymwneud ag absenolrwydd, lefelau damweiniau, perfformiad gwaith neu ymddygiad, neu unrhyw beth arall, neu os amheuir bod cam-drin alcohol neu sylweddau’n digwydd, byddant yn cwrdd gyda’r gweithiwr er mwyn trafod y rhesymau dros hyn. Er budd pennaf y gweithiwr, gwell fyddai bod yn onest o’r dechrau er mwyn gallu cynnig cymorth cyn gynted â phosibl.

7.2 Dylid gwneud pob ymdrech i ddelio â’r sefyllfa gyda chydymdeimlad ac yn gyfrinachol. Os amheuir cam-drin alcohol neu sylweddau, neu os yw’r gweithiwr wedi dweud fod ganddynt ddibyniaeth alcohol neu sylweddau, dylid eu cynghori i geisio cyngor ac arweiniad ar unwaith gan eu hymarferydd meddygol cyffredinol, Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol yr Awdurdod a/neu un o’r asiantaethau gwirfoddol (gweler Atodiad 1).

7.3 Dylid delio â’r mater yn unol â gweithdrefnau Rheoli Perfformiad Anffurfiol i ddechrau. Dylid cytuno ar raglen o gefnogaeth gyda’r gweithiwr, a dylai gynnwys argymhellion gan yr Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol lle bo’n briodol. Dylid paratoi’r rhaglen o gefnogaeth gan gyfeirio at y Polisi Galluogrwydd, a gall gynnwys unrhyw rai o’r camau posibl isod (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- Cytuno i leihau oriau am gyfnod penodol;
- Trefnu gwasanaeth cwnsela drwy’r Adran Iechyd Galwedigaethol.
- Trefnu ymgynghoriad a/neu wasanaeth cwnsela drwy CAIS Ltd neu unrhyw sefydliad arbenigol arall.
- Hyfforddiant ychwanegol neu ail-hyfforddi;
- Adolygu safonau gwaith disgwyliedig a gosod targedau amser ar gyfer bodloni’r safonau hyn.
- Cytuno i adolygu a monitro cynnydd yn rheolaidd a rhoi adborth.

7.4 Dylid ystyried cynnal asesiad risg ar gyfer y swydd er mwyn sicrhau yr ymdriniwyd â’r holl oblygiadau iechyd a diogelwch. Dylai’r Pennaeth gysylltu ag Uned Iechyd a Diogelwch y Cyngor mewn perthynas â hyn.

7.5 Os pennir bod rheswm meddygol dros analluedd, efallai y bydd achos ar gyfer dod â chyflogaeth i ben ar sail iechyd gwael. Mewn achos o’r fath, dylid cyfeirio at Bolisi Rheoli Absenoldeb yr Ysgol a chynnig cyngor ar y gweithdrefnau sydd ar gael gan Adnoddau Dynol.

## 8. YMDDYGIAD

8.1 Tra fod y polisi hwn yn anelu fod yn gefnogol ac i geisio osgoi gweithredu'r drefn ddisgyblu, nid yw hyn bob amser yn bosib. Mewn rhai achosion penodol bydd camau disgyblu yn codi fel canlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol o gamdrin alcohol neu cyffuriau. Bydd defnydd o'r Polisi Disgyblu yn briodol ym mhob achos cysylltiedig a chamdrin alcohol a chyffuriau:

- os yw'n effeithio ar ddiogelwch eraill
- os yw symptomau yn digio pobl eraill
- bod unigolyn yn cael ei amau o:
    - (i) fod o dan ddylanwad alcohol neu cyffuriau tra ar ddyletswydd
    - (ii) cyflenwi, o gadw neu o gynnig cyffuriau sydd wedi eu rheoli
- os yw'r broblem yn amharu ar allu'r unigolyn i wneud ei ddyletswyddau yn effeithiol
- os yw'r gweithiwr wedi gwrthod cynnig yr ysgol o gymorth neu os nad oes ymdrech wedi'i wneud wneud i ddod dros y ddibyniaeth gyda chefnogaeth yr ysgol/Cyngor.

Os cynhelir ymchwiliad gan yr ysgol yn erbyn person cyflogedig o ganlyniad i'r camddefnydd o alcohol/ cyffuriau, bydd o/ hi yn cael ei wahardd (os yn briodol), gyda chyflog llawn, hyd nes cyrraedd canlyniad boddhaol.

Bydd yn cael ei ystyried fel achos o gamymddwyn difrifol iawn os canfyddir bod gweithiwr o dan ddylanwad alcohol/ cyffuriau tra yn y gwaith. Yn yr un modd, os bydd unigolyn yn cael ei amau o gynnig a chyflenwi cyffuriau wedi eu rheoli yn adeiladau'r ysgol/Cyngor yna bydd o/ hi yn cael ei w(gw)ahardd, ar gyflog llawn, hyd nes bydd ymchwiliad wedi ei gwblhau.

## 9. PROFI CYFFURIAU AC ALCOHOL

9.1 Mae'r term ' profi cyffuriau ac alcohol' yn cyfeirio at dadansoddi o ddeunydd biolegol er mwyn canfod cyffuriau neu metabolitiaeth yn y corff. Ar gyfer alcohol, profion anadl yw'r mwyaf cyffredin. Ar gyfer profi cyffuriau, prawf dwr yw'r mwyaf cyffredin yn y DU, ond gellir hefyd profi poer, chwys a gwallt.

9.2 Er mwyn cynorthwyo gya gweithredu y polisi, gellir defnyddio proses profi/sgrinio er mwyn adnabod sylweddau heb eu awdurdodi sydd yn y corff yn yr amgylchiadau canlynol.

- Profi 'achos'
- Sgrinio dilynol

**Profi ar gyfer Achos**

9.3 Mae profi 'Ar gyfer Achos' yn golygu bod angen profi gweithiwr am alcohol a/neu gyffuriau oherwydd bod sail i amau nad yw'r gweithiwr yn ffit i gyflawni ei ddyletswyddau a/neu mae'n peri bygythiad i iechyd a diogelwch oherwydd alcohol a/neu gyffuriau.

9.4 Bydd profi yn digwydd, er enghraifft:

- Mae gweithiwr ynghlwm â damwain, digwyddiad difrifol neu ddamwain a fu bron a digwydd.

- Mae’r Pennaeth neu’r rheolwr o’r farn fod gweithredoedd neu ymddygiad gweithiwr yn rhoi sail resymol i amau eu bod dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau.
- Wedi dod o hyd i alcohol a/neu gyffuriau yn y gweithle.
- Arwyddion o feddwdod presennol.
- Gwybodaeth wedi dod gan ffynhonnell i awgrymu fod gweithiwr yn y gwaith dan ddylanwad alcohol neu’n cam-drin sylweddau.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Bydd pob gweithiwr yn derbyn prawf os bydd unrhyw rai o’r uchod yn berthnasol.

## 10 GWEITHREDIAD

10.1 Bydd y polisi hwn yn weithredol yn dilyn cael ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethol.

10.2 Bydd copïau o'r polisi ar gael i staff yn ogystal ac aelodau etholedig o’r Corff Lllywodraethol drwy gysylltu a'r Tim Adnoddau Dynol neu drwy safle Mewnrhwyd y Cyngor - Monitor.

**ATODIAD 1**

**CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL:**

| | | |
|---|---|---|
| **Internal** | | |
| Uned Iechyd Galwediaethol | 01286 679 746/01248 752510 | occupationalhealth@ynysmon.gov.uk |
| Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch | 01248 751804 | |
| Uned AD | 01248 752513/752928 | |
| **Local** | | |
| CAIS | 0345 0612 112 | www.cais.co.uk |
| Gwasanaeth Camddefnydd Sylwedd GIG Gogledd Orllewin Cymru | 01248 351829 | |
| Llinell Cymorth Alcohol a Chyffuriau Cymru | 0808 808 2234 | www.dan247.org.uk |
| **National** | | |
| Drinkline | 0300 123 1110 | |
| Llinell Cymorth Cyffurfiau Cenedlaethol | 0300 123 6600 | www.talktofrank.com |
| Alcoholics Anonymous (AA) | 0800 917 7650 | www.alcoholics-anonymous.org.co.uk |
| Drinkaware | 020 7766 9900 | www.drinkaware.co.uk |
| Samaritans | 116 123<br>0808 164 0123 (Welsh line) | www.samaritans.org |
| NSPCC | 0808 800 5000 | www.nspcc.org.uk |
| Childline | 0800 1111 (18 or under) | www.childline.org.uk |